# Cefnogi disgyblion a all fod angen lleoliadau coleg arbenigol arnynt

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024-25, mae Gyrfa Cymru yn gyfrifol am gyflwyno ceisiadau am gyllid ar gyfer unrhyw un ym Mlwyddyn 14, neu unrhyw un sy'n hŷn nag 19 oed ond yn iau na 25 oed.

Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am benderfynu a oes angen lleoliad coleg arbenigol (sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol) ar unigolyn ifanc ar gyfer pobl ifanc ym mlynyddoedd 11 i 13 (neu bobl ifanc o oedran cyfatebol nad ydynt yn yr ysgol bellach).

O fis Awst 2025, ni fydd gan Gyrfa Cymru unrhyw ddyletswyddau mewn perthynas ag ariannu lleoliadau coleg arbenigol ar gyfer pobl ifanc o unrhyw oedran, ond gall barhau i gefnogi pobl ifanc ac ALlau/ysgolion.

## Gall cynghorwyr Gyrfa Cymru wneud y canlynol:

- Darparu cyfweliadau cyfarwyddyd un-i-un sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pob unigolyn ifanc mewn lleoliadau a gynhelir
- Cyfrannu at y Cynllun Datblygu Unigol drwy rannu nodau'r unigolyn ifanc ar gyfer ei ddyfodol
- Darparu adborth llafar i ysgolion i roi gwybod iddynt os yw unigolyn ifanc neu deulu wedi dweud wrthym eu bod yn dymuno ystyried lleoliadau coleg arbenigol
- Cwrdd â rhieni i ddarparu gwybodaeth a chyngor am gyfleoedd lleol ac, mewn amgylchiadau pan na all darpariaeth leol ddiwallu anghenion yr unigolyn, darparu gwybodaeth am golegau arbenigol
- Gwneud teuluoedd yn ymwybodol o brosesau'r awdurdod lleol ar gyfer gwneud penderfyniadau
- Mynychu adolygiadau CDU
- Darparu gwybodaeth i staff ysgol a/neu awdurdod lleol ar golegau arbenigol a all ddiwallu anghenion unigolyn ifanc
- Lle y cytunwyd arno, fel rhan o broses ffurfiol awdurdod lleol, mynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan yr awdurdod lleol i drafod dilyniant ôl-16
- Darparu cyfarwyddyd i bobl ifanc sydd wedi'u lleoli mewn colegau arbenigol sydd ar fin gadael ac sy'n bwriadu mynd i ddysgu pellach neu gyflogaeth.

## Ar sail Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, dealltwriaeth Gyrfa Cymru yw:

- Bydd ysgolion a cholegau addysg bellach yn cydweithio i nodi a allai coleg lleol ddiwallu anghenion unigolyn ifanc ac y bydd colegau'n darparu tystiolaeth o'u penderfyniad i'r ysgol/ALl
- Pan fo angen lleoliad mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol ar unigolyn ifanc ar ôl gadael yr ysgol, bydd yr ysgol yn darparu unrhyw atgyfeiriad sydd ei angen i'r awdurdod lleol gan mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i nodi anghenion parhaus yr unigolyn ifanc, a'u crynhoi, ar sail yr CDU y maent wedi'i gynhyrchu
- Bydd yr ysgol a/neu'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'r dysgwr/rhieni i wneud cais I goleg arbenigol addas.

0800 028 4844

www.gyrfacymru.llyw.cymru